Bron Heulog,
Stryd yr Eglwys,
Llansarn.
LL65 5SA

Rhagfyr 1af, 2011

Miss Sali Lloyd,
Ysgol y Delyn,
Llansarn.

Annwyl Miss Lloyd,

Gair i egluro pam na fedr Iago Protheroe, fy mab, wneud y gwaith cartref Celf a gafodd ddoe sef casglu lluniau cyfoes oddi ar y rhyngrwyd. Nid oes gennym fynediad i'r rhyngrwyd yn ein cartref ac rydym ni, fel rhieni, yn gwahardd ein plant rhag defnyddio'r rhyngrwyd y tu allan i oriau ysgol am resymau meddygol.

Mae gwyddonwyr yn China wedi astudio sganiau ymennydd pobl ifanc gydag anhwylder dibyniaeth ar y rhyngrwyd (internet addiction disorder) ac wedi darganfod bod y ffibrau sy'n cysylltu'r rhannau o'r ymennydd sy'n prosesu emosiynau a'r gallu i ganolbwyntio wedi eu niweidio. Nid ydym yn fodlon i'n plant beryglu eu hymennydd.

Am yr un rheswm dydyn ni ddim yn caniatau i'n plant ddefnyddio Smartphones. Mae ymchwilwyr ym mhrifysgol Caerwrangon (Worcester) wedi darganfod bod pobl yn mynd mor ddibynnol ar Smartphones fel eu bod yn clywed 'dirgryniadau ffug' am eu bod bron â marw eisiau cael negeseuon newydd.

Efallai eich bod yn meddwl ein bod yn mynd dros ben llestri ond mae un o bob deg person sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn ddibynnol arno ac yn mynd heb fwyd a diod er mwyn aros arno.

Dydyn ni ddim yn erbyn i'n plant ddefnyddio'r rhyngrwyd yn yr ysgol oherwydd mae dan reolaeth. Nid yw'r defnydd cynyddol o'r rhyngrwyd ym myd gwaith neu fywyd cymdeithasol yr un peth â bod yn ddibynnol chwaith. Ac nid gwneud môr a mynydd o'r sefyllfa ydyn ni. Mae clinic arbennig i bobl sy'n dioddef o anhwylder dibyniaeth ar y rhyngrwyd yn y Coleg Imperial yn Llundain. Yr hyn sy'n ddychryn i ni ydy mai pobl ifanc ydy'r rhan fwyaf o'r cleifion. Pobl ifanc sy'n treulio pedair awr ar ddeg noson ar ôl noson yn chwarae gemau. Mae myfyrwyr yn rhoi'r gorau i fynd i ddarlithoedd ac yn methu eu arholiadau. Mae pobl yn colli eu swyddi am eu bod yn peidio â mynd i'w gwaith, neu yn methu â chanolbwyntio os ydynt yno, ac mae priodasau yn chwalu.

Felly, yn syml, dyna pam nad ydy Iago yn gallu gwneud ei waith cartref Celf.

Yn gywir,

Ben a Rhiannon Protheroe.